# Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

### Tystiolaeth gan Megan Tomos

Ymgynghoriad Gwasanaethau Comisiwn y Cynulliad

Annwyl Gyfaill

Rwy'n falch o'r bwriad i ddeddfu ar y Gymraeg yn y Cynulliad Cenedalethol drwy addasu Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, hoffwn weld rhai newidiadau pwysig i'ch cynlluniau deddfwriaethol.

1. Dylai'r Cofnod o drafodion y cyfarfodydd llawn fod yn gwbl ddwyieithog a dylai'r Ddeddf ei hun ddweud hyn yn gwbl eglur a diamwys. Byddai peidio â gwneud hynny yn tanseilio yr holl ymdrechion a welwyd er sefydlu'r Cynulliad i gryfhau hunaniaeth Cymru at atgyfnerthu'r Gymraeg. Dychymygwch am funud beth fyddai effaith peidio â gwneud hynny ar weithredu polisiau dwyieithog o fewn y cynghorau sir.

Dylai'r gwaith o gyfieithu'r Cofnod fod mor broffesiynol ag unrhyw waith cyfieithu arall yn y Cynulliad gan ddefnyddio technoleg fodern hyd eithaf gallu'r dechnoleg honno ond heb anwybyddu safonau iaith er mwyn arbed costau. Oni fydd y cofnod yn darllen fel darn o Gymraeg ni fydd pobl am ei ddefnyddio.

2. Er mwyn cryfhau lle'r Gymraeg yn y sefydliad dylid cryfhau'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog.

3. Dylid ymestyn y Bil a'r Cynllun y tu hwnt i *wasanaethau* gan gynnwys Y Ddeddwrfa a swyddogaeth Aelodau'r Cynulliad.

4. Mae angen talu mwy o sylw i sgiliau staff a lle'r Gymraeg yn ngweithrediad mewnol y Cynllun.

5. Bydd angen rhaglen fanwl o dargedau a chynllun monitro er mwyn symud ymlaen i gryfhau'r Cynllun fel ag y mae.

Yn gywir,

Megan Tomos (Cyn-brifweithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru)